

Adlewyrchu ei ogoniant

“Ac yr ydym ni i gyd...yn cael ein trawsffurfio o ogoniant i ogoniant, yn wir lun ohono ef.” (adn. 18)

Beth am ddarllen 2 Corinthiaid 3:7–18 ac yna myfyrio

Ddoe, bu inni sôn mai gair arall am sancteiddrwydd yw bod ‘ar wahân’. Mae fy nghyfaill, Philip Greenslade sydd yn fy nghynorthwyo o bryd i’w gilydd i ysgrifennu *Pob Dydd Gyda Iesu* yn ymhelaethu ar yr holl gwestiwn hwn o sancteiddrwydd: Yr ydym yn beiddio bod yn bobl sanctaidd Duw, i fod mor wahanol â Duw, i sefyll allan fel pobl sydd yn eiddo iddo ef trwy ein purdeb a’n daioni, a hynny mewn cymdeithas sydd wedi ei llygru gan bechod.’

Y ffordd i feddiannu sancteiddrwydd yn fy mhrofiad i yw nid yn gymaint i ymdrechu i’w feddiannu ond yn hytrach i edrych ar berson yr Arglwydd Iesu Grist, yr un hwnnw a weithredodd sancteiddrwydd. Rhyfedd mai’r unig ddigwyddiad yn yr efengylau lle y cyfeirir at Iesu fel yr un sanctaidd yw yn y synagog yng Nghapernaum ac un o’r ysbrydion drwg wnaeth hynny (Luc 4:34). Ond mae hyd yn oed y rhai hynny sy’n darllen yr efengylau yn arwynebol yn gorfod sylwi fod Iesu Grist yn wahanol mewn sawl ffordd i’r rhai oedd yn byw gydag ef oedd yn y byd, ag eto nad oedd o’r byd. Medraf ddweud wrth y diafol, ‘mae tywysog y byd hwn yn dod, nid oes ganddo afael ynof fi.’ (Ioan 14:30) Nid oedd dim o’r byd yn Iesu ac felly ni allai’r diafol ddarganfod unrhyw beth yn ei erbyn ef.

Wrth i mi edrych fwyfwy ar Iesu ac wrth iddo ef ddod yn fwy canolog i’n meddyliau ni, wrth i ni ei garu ef fwy, mi fyddwn ni wrth ein bodd yn ei efelychu. Mae’r person hwnnw sydd wedi ei feddiannu gan Iesu yn darganfod, hyd yn oed pan nad yw’n ymdrechu i fod fel Iesu, bod ei gariad tuag ato yn peri ei fod yn ei adlewyrchu. Po fwyaf fyddwn ni’n edrych ar Iesu, mwya oll fyddwn ni’n ei adlewyrchu.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Effes. 4:17–32; Heb. 12:1–3

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth yw’r pethau hynny sy’n cael eu gwahardd?
2. Beth yw’r pethau hynny sy’n cael eu cymeradwyo?

Gweddi

O Dad, diolch dy fod ti’n dymuno bod yn debycach i dy Fab. Caniatâ i mi wneud Iesu yn ganolbwynt fy mywyd fel, wrth i mi edrych arno ef, y gall pobl edrych arna i a gweld Iesu. Rwy’n gofyn hyn yn ei enw bendigedig. Amen.